

Maethu Torfaen

Datganiad o Ddiben

2021/2022

Teitl y Ddogfen:	Datganiad o Ddiben Gwasanaeth Maethu Torfaen 2020/2021				
Ei Lleoliad o fewn y Sefydliad:	Gwasanaethau Plant a Theuluoedd				
Adran/Tîm	Gwasanaeth Maethu Torfaen				
Cymeradwywyd gan:	Rheolwr Grŵp	Rheolwr Comisiynu	GRhRh	UDRh	Cabinet
Dyddiad y cafodd ei chymeradwyo:	13.04.2021				
Dyddiad Adolygu:	Mawrth 2022				

1. Cyflwyniad	2
2. Cwmpas	3
3. Amcanion	3
4. Strwythur Rheoli	4
5. Staff	4
6. Gwasanaethau a Ddarperir	5
7. Egwyddorion a Safonau Gofal	8
8. Recriwtio, Asesu a Chymeradwyo Gofalwyr	10
9. Dysgu a Datblygu i Ofalwyr Maeth	13
10. Cynorthwyo ac Adolygu Gofalwyr Maeth	14
11. Cymorth Ariannol	15
12. Cwynion a Chanlyniadau	16
13. Cymorth Ychwanegol	16
14. Manylion cyswllt defnyddiol	17

1. Cyflwyniad

Mae Gwasanaeth Maethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn rhan o'r gyfarwyddiaeth Gofal Cymdeithasol a Thai, sydd wedi'i lleoli yn y Ganolfan Ddinesig, Glantorfaen Road, Pont-y-pŵl NP4 6YB

Mae Gwasanaeth Maethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi cynhyrchu'r Datganiad o Ddiben hwn yn unol â Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018. Mae RHAN 2 (5) o'r rheoliadau yn manylu ar y gofynion ar gyfer adolygu'r Datganiad o Ddiben a darparu'r dogfennau i randdeiliaid perthnasol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cod Ymarfer ar gyfer Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol, sy'n ymhelaethu ymhellach ar y cynnwys a'r trefniadau i adolygu'r Datganiad o Ddiben.

Yn unol â gofynion Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018, mae'r Datganiad o Ddiben yn darparu gwybodaeth am Wasanaeth Maethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Mae'r Datganiad o Ddiben yn cynnwys manylion y strwythur rheoli a staffio, ystod anghenion y plant y darperir y gwasanaeth ar eu cyfer a sut y darperir y gwasanaeth i ddiwallu anghenion plant a'u cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol.

Bydd y Datganiad o Ddiben ar gael i weinidogion Cymru, gofalmwr maeth cymeradwy a darpar ofalmwr, unrhyw blentyn a leolir gan y gwasanaeth maethu, rhieni unrhyw blentyn o'r fath, unigolion sy'n gweithio at ddiben gwasanaeth maethu'r awdurdod lleol ac unrhyw berson, ar gais.

Bydd y Datganiad o Ddiben yn cael ei adolygu a'i ddiweddar'u flynyddol.

Mae Gwasanaeth Maethu Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Torfaen yn cael ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Diben yr arolygiad yw sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth a rheoliadau. Daw'r adroddiad yn ddogfen gyhoeddus a bydd ar gael ar wefan AGC <https://careinspectorate.wales>, neu fel arall gan:

Swyddfa Genedlaethol Arolygiaeth Gofal Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Parc Busnes Rhyd y Car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Yn ogystal â'r Datganiad o Ddiben, mae yna ystod o ddogfennau penodol a gweithdrefnol sy'n cefnogi'r nodau, yr amcanion, yr egwyddorion gwasanaeth a'r safonau a nodwyd ar gyfer y gwasanaeth maethu.

Mae ymgynghori â rhieni, plant a phobl ifanc, gweithwyr cymdeithasol, gofalwyr maeth, staff yn y gwasanaeth maethu a rhanddeiliaid perthnasol eraill yn llywio cynigion i wella gwasanaethau.

Rydym yn croesawu adborth ar ein Datganiad o Ddiben. E-bostiwrch unrhyw sylwadau at:

- Kirsty Cooke (Rheolwr Tîm) kirsty.cooke@torfaen.gov.uk neu
- Jacalyn Richards (Rheolwr Grŵp) jacalyn.richards@torfaen.gov.uk

2. Cwmpas

Mae Gwasanaeth Maethu Torfaen yn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel i blant sy'n derbyn gofal trwy ddarparu ystod eang o leoliadau maeth priodol i ddiwallu'r anghenion sydd ganddynt yn ôl eu hasesiad. Rydym yn datblygu perthnasoedd gwaith da gyda phlant a phobl ifanc, eu teuluoedd, eu gweithwyr cymdeithasol, gofalwyr maeth a gwasanaethau ieuchyd ac addysg, i wella cyfleoedd bywyd plant sy'n derbyn gofal a sicrhau canlyniadau cadarnhaol.

Mae'r ddogfen hon yn cyfeirio at "ofalwyr maeth" neu "ofalwyr" fel gofalwyr maeth prif ffrwd sydd wedi'u cymeradwyo i ofalu am blant sy'n derbyn gofal. Mae Gwasanaeth Maethu Torfaen hefyd yn darparu cymorth i ofalwyr maeth sy'n gofalu am aelodau o'r teulu neu sydd â chysylltiad sy'n bodoli eisoes â'r plentyn neu ei deulu. Cyfeirir at y gofalwyr hyn fel gofalwyr maeth sy'n berthnasau yn y ddogfen hon.

3. Amcanion

- Recriwtio gofalwyr maeth a all ddarparu gofal o ansawdd uchel mewn teulu i ddiwallu anghenion y plant sy'n derbyn gofal.
- Recriwtio gofalwyr o bob cefndir i sicrhau bod anghenion hiliol, diwylliannol, crefyddol ac ieithyddol pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu diwallu'n briodol.
- Sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu lleoli gyda gofalwyr a all ddarparu sefydlogrwydd, diogelwch, ac amgylchedd cynnes, diogel a gofalgar.
- Sicrhau bod anghenion ieuchyd corfforol ac emosiynol plentyn ac unigolyn ifanc yn cael eu diwallu ac annog ffordd iach o fyw.
- Galluogi pob plentyn a pherson ifanc i elwa ar gyfleoedd addysgol, hyfforddiant a chyflogaeth.
- Hyrwyddo cyswllt â theuluoedd biolegol ac annog a hwyluso hyn fel sy'n briodol.

- Sicrhau bod gan bob gofalwr maeth weithiwr goruchwyllo penodol, a fydd yn cynnig cymorth, arweiniad a goruchwyliaeth reolaidd.
- Sicrhau bod pob gofalwr maeth yn derbyn y Polisi Taliad i Ofalwyr Maeth y cytunwyd arno a bod ganddo'r offer angenrheidiol i ddarparu amgylchedd diogel a chynnes i blant a phobl ifanc
- Sicrhau bod pob gofalwr maeth yn derbyn o leiaf 15 awr o hyfforddiant y flwyddyn, ac yn cymryd rhan yn yr hyfforddiant hwnnw, yn unol â'r Fframwaith Dysgu a Datblygu, i'w galluogi i ddarparu gofal o safon.
- Sicrhau bod statws cymeradwyo pob gofalwr maeth yn cael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn.

4. Strwythur Rheoli

Mae Gwasanaeth Maethu Torfaen wedi ei leoli yn Isadran Gwasanaethau Plant a Theuluoedd y Gyfarwyddiaeth Gofal Cymdeithasol a Thai. Mae'r strwythur rheoli fel a ganlyn.

Prif Swyddog, Gofal Cymdeithasol a Thai Keith Rutherford
Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Jason O'Brien
Rheolwr Grŵp Jacalyn Richards
Rheolwr Tîm Kirsty Cooke

5. Staff

Mae holl staff y Gwasanaeth Maethu yn weithwyr i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Mae ganddyn nhw'r un hawliau, cyfrifoldebau a buddion ag unrhyw weithiwr yn y cyngor. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn hyrwyddo lles ei weithwyr trwy nifer o gynlluniau sydd ar gael i staff, fel:

- Goruchwyliaeth ac Adolygiad Work Smart.
- Cynllun Gweithio Hyblyg.
- Polisi sy'n Ystyriol o Deuluoedd.
- Cynllun Gwobrwyo ac Arbedion Vectis i Aelodau Staff, sy'n cynnig gostyngiadau ar nwyddau a gwasanaethau.
- Gostyngiadau Cycle 2 Work wrth brynu beiciau.

Strwythur Staffio

- Ar hyn o bryd yn eu swyddi mae:
- Rheolwr Tîm
- Rheolwr Tîm Cynorthwyol
- Rheolwr Tîm Cynorthwyol Gofal Gan Berthnasau (cyfnod penodol)
- Gweithwyr Cymdeithasol Cymwysedig x 7.1 cyfwerth â llawn amser (yn cynnwys swydd wag cyfwerth â 0.6 llawn amser)
- Gweithiwr Cymorth Cymunedol x 2 cyfwerth â llawn amser
- Swyddog Lleoli a Chymorth Busnes
- Swyddog Recriwtio a Datblygu
- Gweithiwr Cymorth Cymunedol (Cymorth GGA) x2 cyfwerth â llawn amser (cyfnod penodol)

Rydym yn comisiynu gwasanaethau staff annibynnol neu staff asiantaeth i gwblhau darnau penodol o waith e.e. Asesiadau Personau Cysylltiedig, asesiadau Ffurf F, darparu hyfforddiant, ac ati. Mae'r unigolion hyn yn destun yr un lefel o wiriadau â staff parhaol, gan gynnwys gwiriadau DBS uwch, i sicrhau bod lles plant a phobl ifanc yn cael ei ddiogelu a'i hyrwyddo.

Mae pob gweithwyr cymdeithasol cymwysedig wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a darperir cyfleoedd hyfforddi i gynnal eu statws cofrestru, i fodloni gofynion rheoleiddio ac i hyrwyddo datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae gan staff mewn rolau eraill gyfleoedd dysgu a datblygu i wella eu sgiliau a'u gwybodaeth yn eu rolau cyfredol a disgwylir iddynt flaenoriaethu datblygiad proffesiynol yn ôl yr angen i gyflawni eu rolau.

6. Gwasanaethau a Ddarperir

Mae Gwasanaeth Maethu Torfaen yn cynnig ystod o leoliadau i blant a phobl ifanc o bob oed, sy'n cynnwys lleoliadau maeth mewnol, lleoliadau gydag Asiantaethau Maethu Annibynnol a lleoliadau preswyl. Rydym yn ymdrechu i 'baru' lleoliadau er mwyn sicrhau bod sgiliau a phrofiad gofalcwyr yn gallu diwallu anghenion plant a phobl ifanc. Disgwylir i'n holl ofalcwyr fynychu hyfforddiant gorfodol cyn iddynt gael eu cymeradwyo yn ogystal â hyfforddiant craidd, ac mae gan lawer ohonynt brofiad helaeth o ofalu am blant a phobl ifanc.

6.1 Lleoliadau Tymor Hir:

Mae gan lawer o ofalcwyr maeth ddiddordeb mewn darparu lleoliadau i blant a phobl ifanc neu grwpiau o frodyr a chwiorydd yn y tymor hir, fel arfer tan fod plentyn yn cyrraedd 18 oed neu annibyniaeth.

6.2 Lleoliadau Tymor Byr:

Mae gan lawer o ofalwyr maeth ddiddordeb mewn darparu lleoliadau tymor byr i blant a phobl ifanc neu grwpiau o frodyr a chwiorydd ar sail tymor byr.

Gall y lleoliadau hyn gynnwys sefyllfaoedd lle mae achosion cyfreithiol; yn mynd rhagddynt; gan weithio gyda phlant a'u teuluoedd tuag at ailuno; paratoi ar gyfer mabwysiadu neu faethu tymor hir / parhaol, neu baratoi ar gyfer byw'n annibynnol.

6.3 Gofal Seibiant a Seibiannau Byr:

Mae gennym nifer o ofalwyr sy'n darparu lleoliadau seibiant i ofalwyr eraill. Rydym hefyd yn cynnig cymorth i deuluoedd i atal eu plant rhag derbyn gofal. Yn y sefyllfaoedd hyn, mae'r gofalwr maeth yn rhagweithiol o ran darparu cymorth i'r plentyn a'i deulu.

6.4 Gofal Dydd:

Mae fframwaith deddfwriaethol y system newydd yn cael ei greu gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('y Ddeddf'), Cod ADY Cymru a rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf. Trwy'r fframwaith statudol hwn, nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod yr holl ddysgwyr ag ADY yn cael eu cynorthwyo i oresgyn rhwystrau i ddysgu a'u bod yn gallu cyflawni eu potensial llawn.

6.5 Gofal gan Berthnasau:

Mewn amgylchiadau lle mae cynlluniau gofal plant yn cadarnhau mai'r lleoliad gorau i blentyn neu berson ifanc yw gyda pherthnasau neu ffrindiau'r teulu ac os yw'r plentyn neu'r person ifanc hwnnw'n destun Gorchymyn Gofal neu Orchymyn Gofal Dros Dro, gall Panel Maethu Torfaen gymeradwyo perthynas, fel nain neu daid neu frawd neu chwaer hŷn, fel gofalwr maeth penodol neu ofalwr sy'n berthynas i'r plentyn hwnnw. Yn yr achosion hyn, mae Gwasanaeth Maethu Torfaen yn cwblhau Asesiad Person Cysylltiedig.

Mae Asesiad Person Cysylltiedig yn caniatáu i weithwyr cymdeithasol a'r llys teulu ystyried rhoi plant gyda theulu neu ffrindiau o dan adain Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, Gorchymyn Gofal neu Orchymyn Trefniant Plant ac mae'n helpu i nodi pa gymorth, a allai fod yn angenrheidiol i'r ymgeiswyr, os o gwbl.

6.6 Pan Fyddaf yn Barod:

Mae'r cynllun Pan Rwy'n Barod (WIR) yn caniatáu i'r rheini dros 18 oed a oedd mewn gofalwr maeth cyn eu pen-blwydd yn 18 oed aros yn y lleoliad er mwyn cwblhau eu cyfleoedd addysg neu hyfforddiant. Mae'r cynllun yn caniatáu i'r rheini sy'n gadael gofal, ac sy'n gymwys, aros yn y lleoliad tan eu bod yn 21 oed.

6.7 Prosiect MySt (Fy Nhîm Cymorth):

Mae MyST yn wasanaeth iechyd meddwl Plant a'r Glasoed i blant sy'n derbyn gofal y mae ganddynt anghenion cymhleth. Mae ei ddull yn amlddisgyblaethol ac yn amlasiantaethol i blant a phobl ifanc sydd wedi cael eu lleoli mewn gofal preswyl y tu allan i'r ardal oherwydd eu hanghenion cymhleth, neu sydd mewn perygl o gael eu lleoli y tu allan i'r ardal. Mae'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal sydd ag ymddygiad heriol ac ymddygiad sy'n golygu eu bod yn cymryd risgiau sylweddol, i'r pwynt lle mae sefydlogrwydd y lleoliad a diogelwch perthnasodd dan fygythiad. Mae'r rhain yn bobl ifanc ag anghenion cymhleth sydd angen adnoddau sylweddol i'w helpu, cynnal eu diogelwch a gwella eu cyfleoedd mewn bywyd.

Mae gan Wasanaeth Maethu Torfaen Weithiwr Cymdeithasol dynodedig, sy'n gweithio'n agos gyda thîm MyST, i ddarparu cymorth a goruchwyliaeth reolaidd i'r gofawyr, gan gefnogi recriwtio, asesu a hyfforddi gofawyr maeth MyST. Mae angen mwy o gymorth ar y gofawyr hyn oherwydd yr heriau sy'n eu hwynebu wrth ofalu am blant ag anghenion cymhleth ac mae tîm MyST yn darparu cefnogaeth i'w lleoliadau. Bydd y gofawyr hyn ar gontract gwaith penodol ac mae ganddynt hawl i seibiant rheolaidd a hyfforddiant penodol.

6.8 Comisiynu Lleoliadau Asiantaethau Maethu Annibynnol a Gofal Preswyl

Mae Gwasanaeth Maethu Torfaen yn trafod lleoliadau trwy gronfa ddata CCSR, a reolir gan 4Cs. Mae hwn yn wasanaeth rhanbarthol sydd wedi'i sefydlu i wella cyfleoedd mewn comisiynu a lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal. Rheolir y broses chwilio, gofyn, paru a chontractio gan Swyddog Lleoli'r tîm, gyda chymorth y gweithiwr cymdeithasol ar ddyletswydd.

6.9 Gwasanaeth Cymorth Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig:

Mae'r prosiect GGA yn ddatblygiad newydd o fewn Gwasanaeth Maethu Torfaen. Bydd un Rheolwr Tîm Cynorthwyol a Gweithwyr Cymorth Cymunedol yn cynnig gwasanaethau cymorth i Warcheidwaid Arbennig yn Nhorfaen. Bydd y cymorth hwn yn cynnwys:

- **Gweithiwr Dynodedig** - Gall y Gwarcheidwad Arbennig gael mynediad at weithiwr cymdeithasol / gweithiwr cymorth i ymgymryd â galwadau ffôn rheolaidd a / neu ymweliadau â'r cartref i gynnig cymorth a chyingor emosiynol, cymorth gyda mynychu cyfarfodydd / darparu eiriolaeth, ac ati.

- **Grŵp Cymorth/Mentora Cyfoedion** – Gall y Gwarcheidwad Arbennig gael mynediad at grŵp cymorth gwarcheidiaeth arbennig a chymorth cyfoedion gan warcheidwaid arbennig eraill.
- **Hyfforddiant** – Gall y Gwarcheidwad Arbennig gael mynediad at hyfforddiant fel y'i cynigir i ofalwyr maeth cyffredinol a gofalwyr sy'n berthnasau, a hynny ar amrywiaeth o bynciau, mae hyn hefyd yn cynnwys e-ddysgu.
- **Rhaglenni Magu Plant** – Gall y Gwarcheidwad Arbennig gael mynediad at raglenni magu plant.
- **Gwaith Uniongyrchol Gyda'r Gwarcheidwad Arbennig** – Gweithio ar amrywiaeth o bynciau i gynnwys effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ymlyniad, strategaethau therapiwtig wrth fagu plant, rheoli ymddygiadau ac ati.
- **Gwaith Uniongyrchol Gyda'r Plentyn/Person Ifanc** – Gellir gwneud gwaith uniongyrchol sy'n briodol i oedran ar amrywiaeth o bynciau yn cynnwys dymuniadau a theimladau, rheoli emosiynau a gwaith stori bywyd gyda'r plentyn / person ifanc sy'n destun Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig.
- **Gwaith Uniongyrchol Gyda'r Plentyn/Person Ifanc yn yr Aelwyd** – Gellir gwneud gwaith uniongyrchol gyda phlant neu bobl ifanc yn yr aelwyd .
- **Cyswllt â'r Teulu Biolegol / Cymorth Cyfryngu** – Gellir cynnig cyfryngu i'r teulu e.e. i gynorthwyo gyda chyswllt â theulu biolegol.
- **Mynediad at Gymorth Seicolegydd**
- **Cymorth ar gyfer y Llys**
- **Cyfeirio / Atgyfeirio at Asiantaethau Eraill** – Gall hyn gynnwys Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Cymorth Tai, Cyngor ar Fudd-daliadau ac ati.
- **Cymorth gydag Addysg** – Cysylltu ag ysgolion os yw'r plentyn / person ifanc sy'n destun y gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig yn profi anawsterau o fewn addysg.

7. Egwyddorion a Safonau Gofal

- Cydymffurfio'n llawn â gofynion Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018.
- Lle bynnag y bo modd, bydd plant yn cael eu lleoli gyda gofalwyr sy'n adlewyrchu eu hanghenion crefyddol a diwylliannol. Pe na bai hyn yn bosibl, ceisid cyfleoedd i ddiwallu eu hanghenion, er enghraifft mynychu grwpiau crefyddol neu ddarparu diet amgen ac ati.

- Eir i'r afael â phryderon ynghylch amddiffyn plant ar unwaith ac yn unol â gweithdrefnau diogelu Cymru a'r ddeddfwriaeth berthnasol.
- **NI** fydd cosb gorfforol yn cael ei defnyddio o dan unrhyw amgylchiadau a darperir arweiniad a hyfforddiant i ofalwyr ynghylch rheoli ymddygiad.
- Disgwylir i bob gofalwr gadw at yr arferion gofalu diogel a nodwyd ar gyfer pob plentyn neu berson ifanc a roddir yn eu gofal.
- Bydd presenoldeb ysgol a chyflawniad academiaidd yn cael ei hyrwyddo trwy sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn mynychu'r ysgol neu'r ddarpariaeth addysg briodol.
- Bydd anghenion iechyd pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu hyrwyddo trwy sicrhau bod pob plentyn wedi'i gofrestru gyda meddyg teulu, ei fod yn mynychu pob apwyntiad meddygol, yn cael gwiriadau rheolaidd gan ddeintydd ac optegydd ac yn sicrhau presenoldeb ar gyfer unrhyw wasanaeth gofal iechyd arall fel y bo angen.
- Disgwylir i ofalwyr gadw cofnodion ysgrifenedig cywir ar gyfer pob plentyn yn eu gofal, a chadw'r rhain mewn lle diogel. Disgwylir i ofalwyr hefyd fod yn wiliadwrus ym mhob mater o gyfrinachedd.
- Bydd asesiadau'n cael eu cwblhau gan staff cymwys a phrofiadol.
- Disgwylir i bob gofalwr maeth prif ffrwd fynychu'r Hyfforddiant cyn-asesu 'Sgiliau i Faethu'.
- Bydd gan bob gofalwr weithiwr goruchwyllo dynodedig sy'n darparu cymorth, cyngor ac arweiniad ac a fydd yn ymweld â gofalwyr yn rheolaidd ar sail wedi ei gynllunio a heb ei gynllunio.
- Disgwylir i ofalwyr maeth gymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu a datblygu a chânt eu cefnogi i fyfyrion ar y dysgu hwn a sut mae'n effeithio ar y gofal a roddir i blant sy'n derbyn gofal.
- Bydd cartref pob gofalwr maeth yn cael archwiliad iechyd a diogelwch bob tair blynedd ac archwiliad iechyd a diogelwch ychwanegol os byddant yn symud tŷ. Bydd angen archwiliad iechyd a diogelwch ar ofalwyr maeth sy'n berchen ar garafanau statig hefyd.
- Bydd gan bob plentyn sy'n cael ei leoli ei wely a'i le personol ei hun, a lle bynnag y bo hynny'n ymarferol bosibl, ei ystafell wely ei hun. Fel rheol ni fyddai disgwyl i blant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol rannu ystafell wely gyda phlentyn arall mewn lleoliad neu blentyn i'r teulu. Yr eithriadau i hyn fyddai brodyr a chwiorydd neu os yw plentyn yn dweud ei fod yn dymuno rhannu ystafell wely gyda phlentyn nad yw'n

perthyn (yn berthnasol i leoliadau tymor hir), yn amodol ar asesiad risg gan weithiwr cymdeithasol y plentyn.

- Mae pob gofalwr maeth yn gweithio'n unol â'r Cynllun Gofal y cytunwyd arno ac o fewn telerau'r Cytundeb Gofal Maeth.
- Bydd gofalcwyr maeth yn hyrwyddo a, lle cytunir ar hynny, yn hwyluso cyswllt rhwng plant a phobl ifanc a'u teuluoedd, oni chytunwyd nad yw hyn er budd pennaf y plentyn neu na ellir rheoli'r risgiau.

8. Recriwtio, Asesu a Chymeradwyo Gofalcwyr

Er mwyn darparu gwasanaeth, sy'n diwallu anghenion plant ac yn eu cynorthwyo i gyflawni eu canlyniadau personol, ein nod yw recriwtio ystod o ofalcwyr a'u cynorthwyo i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau i ddeall anghenion y plant a sut i ofalu amdanynt.

Ar ôl derbyn ymholiad gan ddarpar ofalcwr maeth, gofynnwn am wybodaeth sylfaenol.

O fewn wythnos, bydd gweithiwr o'r Gwasanaeth Maethu yn ymweld â'r darpar ymgeisydd am drafodaeth gychwynnol. Bydd mwy o wybodaeth yn cael ei darparu a bydd y teulu'n cael ei sgrinio i ddechrau, a fydd yn cynnwys asesu cyflwr y cartref a'r ystafell wely.

Os yw'r darpar ofalcwr maeth yn dymuno bwrw ymlaen, fe'i gwahoddir i fynychu'r cwrs 'Sgiliau i Faethu', sy'n rhan orfodol o'r broses asesu. Bydd cymryd rhan yn yr hyfforddiant hwn yn rhan o'u hasesiad ac eir ati i drafod yr adborth hwn a'i gynnwys yn eu hasesiad.

Mae'r darpar ofalcwr maeth yn llenwi ffurflen gais fanwl ac yn rhoi caniatâd i'r awdurdod lleol gwblhau'r gwiriadau a'r ymholiadau angenrheidiol ar gyfer yr asesiad.

Mae gwiriadau DBS manwl yn cael eu cwblhau ar bob aelod o'r teulu sy'n oedolion ac aelodau o'r rhwydwaith cymorth agos. Mae'r rhain yn cynnwys datgelu unrhyw gollfarnau neu wybodaeth arall a all fod gan yr Heddlu neu asiantaethau eraill sy'n berthnasol i amddiffyn plant. Ni fydd euogfarn droseddol o reidrwydd yn atal cymeradwyo, ond bydd uwch reolwyr yn ei ystyried yn ofalus a bydd yn destun asesiad risg.

Gwneir gwiriadau o gofnodion Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer pob cyfeiriad, yn ogystal â gwiriadau gydag AGC.

Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd gael archwiliad meddygol wedi'i gwblhau gan ei feddyg teulu. Mae'r adroddiad gorffenedig ar gael i Gynghorydd Meddygol y Panel Maethu er mwyn cynnig

sylwadau am iechyd yr ymgeiswyr ac unrhyw effaith y gallai hyn ei chael ar eu potensial i ddod yn ofalwyr maeth.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddarparu copïau gwreiddiol o dystysgrifau geni, tystysgrifau priodas ac ysgariad, rhif yswiriant gwladol, trwyddedau gyrru, dogfennau yswiriant, statws cyflogaeth ac unrhyw bapurau perthnasol eraill sy'n ymwneud â'u hunaniaeth a'u hanes.

Rhaid i'r ymgeisydd roi manylion o leiaf dri chanolwr personol. Gofynnir am dystlythyrau ysgrifenedig a bydd canolwyr yn cael eu cyfweld fel rhan o'r broses asesu. Disgwylir y bydd gofyn i gynbartneriaid ddarparu geirada oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol. Ymgynghorir â holl blant yr ymgeiswyr hefyd fel rhan o'r asesiad. Gofynnir am dystlythyrau hefyd gan gyflogwr yr ymgeisydd.

Bydd gweithiwr cymdeithasol, sydd wedi'i hyfforddi a'i oruchwylio'n addas, yn cynnal asesiad llawn. Bydd hyn yn cynnwys sawl ymweliad â'r cartref i gwblhau sesiynau ar y cyd a sesiynau unigol gyda'r ymgeiswyr.

Bydd yr asesiad yn cynnwys cefndir teuluol, addysg a chyflogaeth, perthnasoedd blaenorol, ffordd o fyw, profiad o ofalu am blant, agweddau, gwerthoedd a disgwyliadau, dealltwriaeth o faterion gwahaniaethu, y gallu i weithio gyda'r awdurdod lleol, a'u dealltwriaeth o rôl gofalwyr maeth.

Bydd y broses asesu hefyd yn cynnwys asesiad yn seiliedig ar gymhwysedd lle mae ymgeiswyr yn cael cymorth i lunio portffolio o ddeunydd ysgrifenedig a thystiolaeth arall o'u sgiliau a'u profiad perthnasol.

Ar ôl ei gwblhau, rhennir yr asesiad gyda'r ymgeiswyr, ac yna fe'i cyflwynir i'r Panel Maethu. Mae'r Panel yn gwneud argymhellion ynghylch addasrwydd yr ymgeisydd / ymgeiswyr i'w cymeradwyo fel gofalwyr maeth.

Mae Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn derbyn argymhelliad y Panel Maethu yn ei rôl fel un sy'n Gwneud Penderfyniadau ar ran yr Asiantaeth ac, ar ran yr Awdurdod Lleol, mae'n gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch cymeradwyo.

Hysbysir ymgeiswyr ar lafar ac yn ysgrifenedig am y penderfyniad. Os bydd yr ymgeiswyr yn anghytuno â phenderfyniad yr asiantaeth, fe'u hysbysir o'r gweithdrefnau apelio a chyflwyno sylwadau, gan gynnwys eu hawl i gael eu cais wedi'i adolygu gan y Mekanwaith Adolygu Annibynnol (IRM).

Mae'r broses asesu yn gyffredinol yn cymryd 3-6 mis, a chedwir yr holl wybodaeth a gafwyd yn ystod y broses hon ar ffeil. Gall gofalwyr maeth, os mynnant, edrych ar rywfaint o'r wybodaeth. Gyda chaniatâd y testun a'r canolwyr perthnasol yn unig y gellir rhannu tystlythyrau a gwybodaeth gan asiantaethau allanol.

Mae'n ofynnol i bob gofalwr maeth lofnodi cytundebau gofalwyr maeth yn unol â Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018. Mae'r cytundebau'n nodi tasgau a disgwyliadau clir sy'n ofynnol gan bob gofalwr.

Gofalwyr Maeth Sy'n Berthnasau

Bydd y rhai sy'n gwneud cais i ddod yn ofalwyr maeth sy'n berthnasau yn cael asesiad unedig y cytunwyd arno gan Fwrdd Cyfiawnder Teuluol Lleol De Ddwyrain Cymru. Bydd yr asesiad hwn yn ystyried a yw'r ymgeisydd yn cwrdd â'r cymwyseddau maethu ac, os yw'n llwyddiannus, caiff ei argymhell i'w gymeradwyo fel gofalwr/gofalwyr maeth sy'n berthynas. Gall yr asesiad hefyd ddod i'r casgliad a yw ymgeisydd yn addas i wneud ei gais ei hun am Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig (SGO) neu Orchymyn Trefniadau Plant (CAO).

Mae'n ofynnol i bob gofalwr maeth lofnodi cytundebau i ofalwyr maeth yn unol â Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018. Mae'r cytundebau'n nodi tasgau a disgwyliadau clir sy'n ofynnol gan bob gofalwr.

Bydd pob asesydd yn cael ei werthuso'n llawn yn ôl y Canllaw Arfer Da ar gyfer Asesu a Chefnogi Gofalwyr Maeth sy'n Berthnasau.

Recriwtio Gofalwyr Maeth

Mae gan Wasanaeth Maethu Torfaen strategaeth gomisiynu o ran lleoliadau i bennu anghenion y gwasanaeth.

Mae Gwasanaeth Maethu Torfaen wedi bod yn rhagweithiol ac yn arloesol yn ei ddulliau o recriwtio gofalwyr maeth, ac mae'n parhau i fod. Rydym yn parhau i hysbysebu'n eang trwy'r cyfryngau cymdeithasol ac wedi comisiynu ymgyrchoedd hysbysebu. Rydym yn parhau i weithio gyda chydweithwyr cenedlaethol a rhanbarthol i hyrwyddo maethu i'r Awdurdod Lleol.

Mae Torfaen wedi cymryd rhan mewn gweithdai strategaeth farchnata helaeth gyda'n cydweithwyr trwy waith y Fframwaith Maethu Cenedlaethol (FfMC).

Mae Torfaen yn defnyddio Pythefnos Maethu fel cyfle i godi ymwybyddiaeth bellach o faethu i'r Awdurdod Lleol.

9. Dysgu a Datblygu i Ofalwyr Maeth

Rydym yn cydnabod bod maethu wedi dod yn fwyfwy cymhleth a heriol ac rydym wedi ymrwmo i ddarparu cyfleoedd dysgu a datblygu o ansawdd uchel i'n holl ofalwyr maeth. Disgwylwn i bob darpar ofalwr maeth prif ffrwd fynychu'r cwrs 'Sgiliau i Faethu'. Mae'r Fframwaith Dysgu a Datblygu Ôl-gymeradwyo ar gyfer Gofalwyr Maeth, yn nodi'r cyfleoedd dysgu a datblygu craidd a ganlyn:

- Datblygiad Plant Diogelu.
- Gofal Mwy Diogel a Honiadau.
- Cefnogi Addysg a Datblygiad.
- Gweithio gyda Theuluoedd Biolegol a Chyswllt.
- Cofnodi, Cyflwyno a Rhannu Gwybodaeth.
- Pontio i Blant a Phobl Ifanc.
- Gwaith Taith Bywyd
- Hybu Iechyd a Lles Da.
- Datblygu Sylfaen Ddiogel a Hyrwyddo Ymlyniad.
- Deall Ymddygiad Heriol a Hyrwyddo Strategaethau Cadarnhaol.
- Eiriolaeth a Hawliau Plant.
- Iechyd a Diogelwch.
- Cymorth Cyntaf.
- Deddfwriaeth Sylfaenol.
- Ymsefydlu Lleol (yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau).

Mae cyfleoedd dysgu a datblygu eraill ar gael a chânt eu pennu fesul achos neu yn unol ag anghenion unigol y plentyn. Mae'r rhain yn cynnwys cyrsiau hyfforddi ffurfiol, e-ddysgu ac ystod o gyfleoedd eraill. Mae gofalwyr hefyd yn cael eu hannog a'u cefnogi i gyflawni'r wobr QCF, os dymunant.

Darperir cefnogaeth i ddysgu a datblygu er mwyn:

- Helpu gofalwyr maeth i wella'u gwybodaeth a'u sgiliau, a sicrhau eu bod yn hyderus ac yn gymwys i ofalu'n ddiogel, nodi risgiau a diogelu plant rhag niwed.
- Annog gofalwyr maeth i fyfrio ar, ac ystyried effeithiau gwahaniaethu, colled, cam-drin, a ffactorau cefndir ac amgylcheddol eraill ar ddatblygiad y plant yn eu gofal.
- Annog gofalwyr maeth i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a'u datblygiad proffesiynol eu hunain, gan ddefnyddio eu Cofnod Dysgu Personol a'u Cynllun Datblygu i gynorthwyo trafodaeth ym mhob sesiwn oruchwylio.

Mae Gwasanaeth Maethu Torfaen yn ymroddedig i adolygu ein cyfleoedd dysgu a datblygu ac mae'n gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr rhanbarthol.

10. Cynorthwyo ac Adolygu Gofalwyr Maeth

Mae Torfaen yn gwerthfawrogi'r gwaith y mae gofalwyr maeth yn ei wneud a'r cyfraniad maen nhw'n ei wneud i fywydau plant a phobl ifanc. Mae cymorth priodol i'n gofalwyr maeth yn hanfodol bwysig i sicrhau lleoliadau llwyddiannus ac wrth ddatblygu a chadw gofalwyr medrus a phrofiadol.

Gall ein gofalwyr maeth ddibynnu ar eu gweithiwr goruchwyllo i'w cynorthwyo os bydd cwyn neu honiad. Os cynhelir ymchwiliad amddiffyn plant, o ganlyniad i honiad, rôl y gweithiwr goruchwyllo yw darparu cefnogaeth i'r gofalwr. Fodd bynnag, nid yw ein gweithwyr goruchwyllo yn cymryd rhan weithredol mewn unrhyw ymchwiliadau. Rydym hefyd yn atgyfeirio gofalwyr maeth i'r Rhwydwaith Maethu am gefnogaeth annibynnol ar yr adeg hon.

Goruchwyllo: Mae gofalwyr yn cael goruchwyllo gan weithiwr cymwys a phrofiadol addas o Wasanaeth Maethu Torfaen. Mae pa mor aml y cwblheir yr oruchwyllo yn dibynnu ar anghenion y gofalwr, anghenion y plant sy'n cael eu lleoli, a bydd yn digwydd o leiaf bob chwarter. Lle nad yw goruchwyllo yn digwydd yn fisol, disgwylir y bydd y gweithiwr goruchwyllo yn gwneud o leiaf un cyswllt y mis â'r teulu sy'n maethu, a chofnodir hyn yn y modd priodol.

Disgwylir y bydd cymorth i ofalwyr maeth yn cynnwys ymweliadau a galwadau ffôn aml gan y gweithiwr goruchwyllo, yn cynnwys o leiaf un ymweliad dirybudd y flwyddyn.

Cymorth: Mae Gwasanaeth Maethu Torfaen yn gwahodd pob gofalwr maeth i gwrdd yn fisol mewn grŵp cymorth anffurfiol. Ymgynghorir â gofalwyr maeth ymlaen llaw ynghylch unrhyw themâu neu bynciau a nodwyd ar gyfer grwpiau cymorth yn y dyfodol. Cynhelir grwpiau cymorth ar wahân ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthnasau.

Mae cylchlythyr bob yn ail fis yn cael ei ddosbarthu gan Wasanaeth Maethu Torfaen, trwy e-bost, i bob gofalwr maeth. Dosberthir cylchlythyr arall gan y Tîm Datblygu'r Gweithlu i sicrhau bod gofalwyr yn ymwybodol o'r holl Gyfleoedd Dysgu a Datblygu.

Mae gan Wasanaeth Maethu Torfaen lyfrgell adnoddau, sydd ar gael i bob gofalwr maeth er mwyn iddo/iddynt fynd i'r afael ag unrhyw anghenion dysgu a datblygu penodol a nodwyd.

Darperir y Llawlyfr i Ofalwyr Maeth i'r holl ofalwyr maeth ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo.

Darparu gofal seibiant: Mae'r angen i ddarparu seibiant wedi'i nodi yn strategaeth safle marchnad Torfaen. Ar hyn o bryd, mae ceisiadau am seibiant yn cael eu hystyried fesul achos

ar gyfer pob gofalwr maeth, yn amodol ar gytundeb gan weithiwr cymdeithasol a rheolwr tîm y plant ac os yw gofalwyr maeth sy'n cyfateb yn briodol ar gael.

Cymorth y tu allan i oriau: Mae ein llinell ffôn cymorth y tu allan i oriau ar gael 365 diwrnod y flwyddyn. Dydd Llun i ddydd Iau rhwng 5:00pm a hanner nos, dydd Gwener 4.30pm tan hanner nos a dydd Sadwrn - dydd Sul 2.00pm tan hanner nos.

Adolygiadau blynyddol ar gyfer gofalwyr maeth:

Prif nod yr adolygiad blynyddol yw penderfynu a ddylai'r cymeradwyaeth barhau ac a ddylai fod unrhyw newidiadau i'r telerau cymeradwyo. Mae'r adolygiad yn cynnwys adroddiad ysgrifenedig gan y gweithiwr goruchwyllo, adroddiadau gan weithiwr cymdeithasol y plentyn, gofalwyr maeth a sylwadau gan y plentyn/plant sydd yn y lleoliad. Mae pob gwiriad, gan gynnwys gwiriadau DBS yn cael eu diweddarau yn unol â'r rheoliadau.

Cyflwynir adolygiadau blynyddol i'r Panel Maethu:

- yn dilyn yr adolygiad cyntaf.
- yn dilyn 5 mlynedd o gymeradwyaeth a phob 5 mlynedd wedi hynny.
- lle argymhellir newid y telerau cymeradwyo.
- lle bu cwyn neu honiad difrifol.

Mae'r panel yn cael gwybod am bob eithriad i'r 'terfyn maethu arferol'. Gall y panel wneud argymhellion ynghylch nifer y plant sydd i'w lleoli, yn ogystal ag unrhyw anghenion dysgu a datblygu neu anghenion cymorth sydd gan ofalwyr.

11. Cymorth Ariannol

Mae gofalwyr sy'n maethu i Dorfaen yn derbyn lwfans fel yr argymhellir gan Lywodraeth Cymru. Mae lefel y taliad hwn yn gysylltiedig ag oedran a'i fwriad yw ad-dalu costau uniongyrchol i'r gofalwr am ofalu am blentyn. Y goblygiad yw nad yw'r taliad hwn yn cael ei drin fel enillion, gan ei fod yn fudd i'r plentyn yn gyfan gwbl.

Cytunwyd ar y ffigurau isod o fis Ebrill 2020:

Lwfansau Maethu Wythnosol:

0-4 oed £194

5-15 oed £177

16+ oed £220

Efallai bod gofalwyr maeth hefyd yn gymwys i dderbyn taliad ffi, os ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysra, sy'n cynnwys arddangos y sgiliau a'r galluoedd i ofalu am unrhyw blentyn neu berson ifanc y mae'r Awdurdod Lleol yn eu paru gyda nhw.

Gellir cyrchu manylion llawn y cymorth sydd ar gael i ofalwyr maeth trwy ddilyn y ddolen ganlynol: <https://www.torfaen.gov.uk/en/Related-Documents/FosteringandAdoption/SummaryOfFosterCarerPayments.pdf>

12. Cwynion a Chanlyniadau

Mae gwasanaeth Maethu Torfaen yn cydnabod barn gofalwyr maeth ac mae'r plant a'r bobl ifanc sydd wedi'u lleoli gyda nhw yn bwysig ac yn hanfodol ar gyfer monitro a gwella'r gwasanaeth a ddarperir. Yn ogystal â hyn mae'n hyrwyddo hawliau'r plant i gael llais. Bydd gofalwyr maeth a'r plant / pobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael eu hannog i ddatgan eu pryderon heb fod yn atebol, gan wybod bod eu dymuniadau neu eu teimladau wedi'u clywed yn briodol.

Gellir cael mwy o wybodaeth am y broses gwynion trwy'r ddolen ganlynol: <https://www.torfaen.gov.uk/en/AboutTheCouncil/Complaints/Service-Complaints/How-to-Complain.aspx>

13. Cymorth Ychwanegol

Wrth chwilio am ofalwyr maeth cyffredinol i ofalu am ein plant, mae Gwasanaeth Maethu Torfaen yn defnyddio'r holl wybodaeth a ddarperir i asesu sgiliau a gallu gofalwyr maeth i ddiwallu anghenion diwylliannol, ieithyddol a chrefyddol plant.

Mae Gwasanaeth Maethu Torfaen yn cefnogi dysgu a datblygu ein gofalwyr maeth i ofalu am ein plant a'u gallu i ddarparu cefnogaeth i'r plant mewn perthynas â'u cyfeiriadedd rhywiol a'u hunaniaeth o ran rywedd. Rydym wedi cynnig cyfleoedd hyfforddi newydd i ofalwyr maeth gan y Rhwydwaith Maethu, fel Dosbarth Meistr Maethu Plant a Phobl Ifanc LGBTQ, ac atgyfeirio ein gofalwyr maeth at wasanaethau perthnasol fel Umbrella Cymru a Mermaid UK. Mae Umbrella Cymru yn fudiad cymorth rhyw ac amrywiaeth rhywiol, arbenigol sy'n cynnig ystod o wasanaethau i bobl ledled Cymru, yn cynnwys cyngor ac arweiniad, gwybodaeth a chyfeirio, cwnsela, eiriolaeth a chymorth emosiynol ac ymarferol.

Mae Gwasanaeth Maethu Torfaen hefyd yn darparu cefnogaeth i'n gofalwyr maeth ddiwallu anghenion iaith a chyfathrebu'r holl blant. Mae pob plentyn sy'n derbyn gofal yn cael asesiad iechyd a gwblheir gan y Nyrs Clinigol arbenigol, i ganfod unrhyw broblemau lleferydd ac iaith a chynghori ar y broses ar gyfer atgyfeirio i'r tîm Lleferydd ac iaith. Mae gan ofalwyr maeth sy'n ofalu am blant sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain fynediad at Linell Iaith a darperir dehonglwyr, lle bo hynny'n briodol, er mwyn i ddymuniadau a theimladau'r person ifanc gael eu

cyfleu yn glir. Mae plant Torfaen yn cael mynediad i ystod o ysgolion, sy'n darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae gan yr awdurdod lleol wasanaeth cyfieithu i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu yn Gymraeg i blant ac oedolion yn unol â Rheoliadau Safonau Iaith Cymru.

14. Manylion cyswllt defnyddiol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen,
Y Ganolfan Ddinesig, Glantorfaen Road, Pont-y-pŵl NP4 6YB
Ffôn: [01495 762200](tel:01495762200)
<http://www.torfaen.gov.uk>

Arolygiaeth Gofal Cymru

Swyddfa Ranbarthol De Ddwyrain Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth, Rhydycar, Merthyr Tudful CF48 1UZ
Ffôn: 0300 7900 126
<https://careinspectorate.wales/>

Gofal Cymdeithasol Cymru

Tŷ South Gate, Wood Street, Caerdydd CF10 1EW
Ffôn: 0300 3033 444
<https://socialcare.wales/>

Comisiynydd Plant Cymru

Tŷ Ystumllwynarth, Charter Court, Ffordd Ffenics
Llansamlet, Abertawe, SA7 9FS
Ffôn: 01792 765600
<https://www.childcomwales.org.uk/>

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr. CF35 5LJ
Ffôn: 0300 7900 203
<https://www.ombudsman.wales/>